



Cymru yn Wales in 2040

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Y Materion, yr Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir
Ebrill – Gorffennaf 2018



Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynllun newydd ar gyfer datblygu yng Nghymru. Nid yw'r cynllun yn ymwneud â materion lleol – beth sy'n digwydd yn eich cymdogaeth – yn hytrach, mae'n edrych yn ehangach ar anghenion Cymru gyfan er mwyn iddi fod yn llwyddiannus nawr ac yn y dyfodol.

Bydd y cynllun newydd, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), yn ymdrin â'r materion mawr sy'n bwysig i ffyniant a lles Cymru, fel yr economi, tai, trafnidiaeth, ynni a'r amgylchedd.

Bydd yn nodi lle y dylid lleoli datblygiadau o bwys cenedlaethol, lle mae'r meysydd twf allweddol, a'r seilwaith a'r gwasanaethau sydd eu hangen

Cyhoeddir yr FfDC yn 2020 ac mae'n cwmpasu cyfnod o 20 mlynedd hyd at 2040. Bydd yn cael ei adolygi bob 5 mlynedd.

Ein Hamcanion

Mae gennym gyfres o Amcanion ar gyfer yr FfDC, ac fe fyddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r materion yma ar lefel genedlaethol:



Diwylliant a Threftadaeth



Cefn Gwlad Cymru



Tai



Rhanbarthau Dinesig a Chytundebau Twf



Iechyd a Lles



Cymunedau Cydlynol

Ein Gweledigaeth

Bydd y Fframwaith yn helpu i sicrhau lleoedd cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2040, drwy gefnogi dulliau cadarnhaol o greu lleoedd a sicrhau bod ein dewisiadau gofodol yn cyfeirio datblygiad i'r lleoedd iawn, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, yn creu ac yn cynnal cymunedau hygyrch ac iach, yn gwarchod ein hamgylchedd ac yn cefnogi ffyniant i bawb.

Rydym wedi siarad â llawer o bobl ledled Cymru am yr hyn y dylai'r FfDC ei wneud. Rydym wedi casglu tystiolaeth a gwahodd pobl i awgrymu prosiectau.

Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu i lunio Gweledigaeth, Amcanion a glasbrint ar gyfer datblygu'r FfDC, o'r enw yr Opsiwn a Ffeffir.

Mae cyfle pwysig nawr gan rhanddeiliaid – awdurdodau lleol, busnesau, grwpiau cymunedol, aelodau'r cyhoedd, cyrff proffesiynol – i roi gwybod inni beth maen nhw'n ei feddwl am y dull a gynigir ac i'n helpu i lunio'r FfDC.

Rhowch eich barn ar weledigaeth amcanion a'r Opsiwn a Ffeffir yr FfDC erbyn 23 Gorffennaf.



Newid yr Hinsawdd, Datgarboneiddio ac Ynni



Trafnidiaeth



Isadeiliedd Digidol



Adnoddau Naturiol



Ffyniant Economaidd ac Adfywio



Y Gymraeg

Ein ffyrdd o weithio

- **Ymgysylltu** – Aall unrhyw un gyfrannu at waith llunio'r FfDC. Bydd cyfle ichi ddweud eich dweud a dylanwadu ar yr FfDC yn y dyfodol.
- **Ymgynghori** – Byddwn yn gwahodd pawb i roi ei barn yn ffurfiol ar y ddogfen a ddylai fod yn gynllun datblygu 20 mlynedd ar gyfer Cymru yn ein tyb ni, ym mis Gorffennaf 2019. Dyma fydd eich cyfle chi i fynegi'ch barn ynghylch y ddogfen drafft cyn ei chwblhau.
- **Craffu** – Bydd aelodau'r Cynulliad yn craffu ar yr FfDC yn haf 2020, cyn ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.
- **Asesiadau** – Mae'n hynod bwysig inni feddwl am effeithiau posibl yr FfDC. Mae Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ein helpu i gynnal y broses hon. Ewch i'n gwefan i weld adroddiadau'r asesiad. Maen nhw'n esbonio'r broses arfarnu a sut mae'r asesiadau'n helpu i lunio'r FfDC wrth iddo gael ei ddatblygu. Mae croeso i unrhyw un gyflwyno sylwadau am yr asesiadau effaith.

Gwybodaeth Bellach

Y Weledigaeth, yr Amcanion a'r Opsiwn a Ffeffir, a sut i ymateb: <https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Gwefan yr FfDC: <http://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?skip=1&lang=cy>

Cysylltwch â Ni

E-bost: ffdc@llyw.cymru

Post: Tîm yr FfDC, Cangen Polisi Cynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 3261

Cymru yn Wales in 2040

National Development Framework

Issues, Options and Preferred Option
April – July 2018

The Welsh Government is working on a new plan for development in Wales. The plan isn't about local matters – things going on in your neighbourhood – but rather takes a broader look at what Wales, as a whole, needs in order to be successful now and in the future.

The plan, called the National Development Framework (NDF), will cover the big issues important to Wales's prosperity and well-being, such as the economy, housing, transport, energy, and the environment.

It will identify where nationally significant developments should take place, where the key growth areas are and what infrastructure and services are needed.

The NDF will be published in 2020 and cover a 20 year period up to 2040. It will be reviewed every 5 years.

Our Objectives

We have set a series of Objectives for the NDF which will seek to address the following issues at a national scale:



Culture and
Heritage



Rural
Wales



Housing



City Regions and
Growth Deals



Health and
Well-being



Cohesive
Communities

Our Vision

The NDF will help deliver sustainable places across Wales by 2040, by supporting placemaking and ensuring our choices direct development to the right places, making the best use of resources, creating and sustaining accessible healthy communities, protecting our environment and supporting prosperity for all.

We have spoken to many people across Wales about what the NDF should do, gathered evidence and invited people to suggest projects.

This work has led us to develop a Vision, Objectives and a blueprint for developing the NDF which is called the Preferred Option.

Now is an important opportunity for all stakeholders – local authorities, businesses, community groups, members of the public, professional bodies – to let us know what they think of the proposed approach and help shape the NDF.

Have your say on the NDF Vision, Objectives and Preferred Option by 23 July.



Climate Change,
Decarbonisation
and Energy



Transport



Digital
Infrastructure



Natural
Resources



Economic
Prosperity and
Regeneration



Welsh
Language

Our ways of working

- **Engagement** – Anyone can get involved during preparation of the NDF. You have the opportunity to have your say and shape the NDF going forward.
- **Consultation** – We will formally seek views on the document we consider should form the 20 year development plan for Wales in July 2019. This will be the opportunity for you to give your views on the draft document before it is finalised.
- **Scrutiny** – The elected members of the National Assembly for Wales will scrutinise the draft NDF in summer 2020, before it is published by the Welsh Government.
- **Assessment** – It is hugely important we think about the effects and impacts the NDF can have. An Integrated Sustainability Appraisal and Habitats Regulations Assessment help us carry out this process. The assessment reports are on our website and they explain the appraisal process and how they are helping to shape the NDF as it is developed. Anyone is welcome to comment on the impact assessments.

Further Information

The current Vision, Objectives and Preferred Option stage and how to respond:
<https://consultations.gov.wales/consultations/>

NDF website: <http://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?lang=en>

Contact Us

E-mail: ndf@gov.wales

Post: NDF Team, Planning Policy Branch,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff. CF10 3NQ

Telephone: 0300 025 3261



Mae Parciau Cenedlaethol yn gorchuddio **19.9%** o dir Cymru, o gymharu â **9.3%** o arwynebedd Lloegr a **7.2%** yn yr Alban.

National Parks cover **19.9%** of the land area in Wales, compared to their coverage of **9.3%** of the land area for England and **7.2%** of the land area for Scotland.

9



2016 – 2017

Cafodd **6,833** o anheddau newydd eu gorffen yng Nghymru.

There were a total of **6,833** new dwellings completed in Wales.

1



£16.4bn

Gwerth allforion Cymru yn 2017 – cynnydd o

£1.8bn

yn erbyn y flwyddyn flaenorol.

£16.4bn

The value of Wales' exports in 2017 – an increase of

£1.8bn

on the previous year.

8



2017

24.0%

Y ganran o bobl rhwng 16 a 64 oed oedd yn economiadd anweithgar yng Nghymru, o gymharu â **21.8%** yn y DU gyfan.

24.0%

of those aged 16 to 64 were economically inactive in Wales, compared to **21.8%** of those aged 16 to 64 for the UK as a whole.

7



Rhagamcanir y bydd cynnydd o **4.6%** o 2016 i **3.26m** erbyn 2041.

The population of Wales is projected to increase by **4.6%** from 2016 to **3.26m** by 2041.

6



2016 – 2017

15%

Y canran o oedolion Cymru nad oedd yn gallu fforddio pethau syml fel cadw'r ty'n gynnes.

15%

of adults in Wales couldn't afford basic things like keeping the house warm.

5

Ffynhonnell/Source:

1 – 8

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

9

Parciau Cenedlaethol / National Parks



2016

Amcangyfrifir fod **43%** o'r ynni trydanol a ddefnyddiwyd yng Nghymru wedi dod o ffynonellau adnewyddadwy.

An estimated **43%** of electrical energy consumed in Wales was generated by renewable sources.

2



Mae disgwyl i'r nifer o bobl dros **65** gynyddu gan **232,000 (36.6%)** rhwng 2016 a 2041.

The number of people aged **65** and over is projected to increase by **232,000 (36.6%)** between 2016 and 2041.

3



2016 – 2017

Gwnaeth **5%** o oedolion seiclo a **61%** o oedolion gerdded o leiaf unwaith yr wythnos i rywle penodol.

5% of adults cycled and **61%** of adults walked at least once a week to get to a particular destination.

4

Cymru yn Wales in 2040